PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

# Creu diwylliant cydweithredol mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Briff polisi ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Woodcock, Elizabeth

Cyhoeddwyd: 18/05/2023

PDF y cyhoeddwr, a elwir hefyd yn Fersiwn o'r cofnod

Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication

*Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):*
Woodcock, E. (2023). *Creu diwylliant cydweithredol mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Briff polisi ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*.

**Hawliau Cyffredinol / General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

18. Apr. 2024

# Creu diwylliant cydweithredol mewn BGC

Briff polisi ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

## Crynodeb


- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yw'r sefydliad allweddol ar gyfer cydweithredu ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac fe'u sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Mae ymchwil ddiweddar yng Nghymru (Woodcock, 2022) wedi dangos bod BGC mewn perygl o beidio â gweithredu ar y cyd ar eu cynlluniau llesiant oherwydd diwylliant o hierarchaeth, arbenigo ac atebolrwydd rheolaethol.

- Dangosodd yr ymchwil y gall ymchwil weithredu (math cyfranogol o ddysgu trwy weithredu ar y cyd) helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adeiladu'r gallu i drafod amcanion llesiant ar y cyd ac ysgogi gweithredu ar unwaith.

- Mae'r briff polisi hwn yn nodi sut y gall BGC ddefnyddio arferion ymchwil weithredu i:
  - Wella deialog (trafodaeth agored a chyd-ddealltwriaeth)
  - Greu 'heterarchaeth' (gwneud penderfyniadau llorweddol a rhannu pŵer)
  - Wella cynhwysiant rhanddeiliaid (cyfranogiad amrywiol mewn cynlluniau llesiant a chamau gweithredu)

- Mae'r papur briffio'n esbonio sut y gall rheolwyr partneriaethau BGC ddefnyddio fforymau cymorth cymheiriaid a briff cysylltiedig, 'Creu strategaeth Llwybrau Gwyllt', i adeiladu ar enghreifftiau o arferion da.

- Mae'r papurau briffio polisi hyn yn seiliedig ar gyfnod helaeth o ymchwil weithredu gan yr awdur gyda BGC a phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2019 fel rhan o brosiect doethurol.



Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chydweithio

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn cael eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y sefydliad allweddol i alluogi cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i weithredu ar y cyd.

Er mwyn cydweithio, a chyflawni'r ffyrdd eraill o weithio a nodir yn y Ddeddf, mae astudiaethau o rwydweithiau llywodraethu strategol yn dangos bod angen diwylliant arnynt sydd fel a ganlyn:

**Yn ddialegol:** mae'n annog trafodaeth agored a chyd-ddealltwriaeth.

**Yn heterarchaidd:** mae'r gwaith o wneud penderfyniadau yn 'llorweddol', fel bod gan bob partner ddylanwad cyfartal a'u bod yn rhannu cyfrifoldeb.

**Yn blwraliaethol:** mae penderfyniadau yn ystyried ac yn creu cydberthnasau cadarnhaol rhwng nodau amrywiol aelodau a rhanddeiliaid eraill.

## Diwylliant presennol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Arsylwodd ymchwil ddiweddar yng Nghymru (Woodcock, 2022) ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod ei gylch cyntaf o gynllunio llesiant.

Canfu'r ymchwil fod y BGC wedi mabwysiadu arferion arbenigol, hierarchaidd a rheolaethol a oedd yn cyfyngu ar ei allu i gynnal deialog, gwneud penderfyniadau ar y cyd a sicrhau cynhwysiant amrywiol.

O ganlyniad, roedd y BGC mewn perygl o golli ei gyfreithlondeb democrataidd a'i bŵer i weithredu gyda chymunedau ac roedd yn cyfyngu cymhelliant ei aelodau i gronni adnoddau. Dechreuodd cynlluniau gweithredu'r BGC adlewyrchu blaenoriaethau polisïau rhanbarthol a chenedlaethol yn hytrach na phryderon lleol, wrth i aelodau droi at y polisïau hyn am awdurdod ac adnoddau.

### Roedd arferion arbenigol yn cyfyngu ar ddeialog:

Roedd diffyg deialog yn y Bwrdd yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o nodau strategol pob aelod, gan greu cyfres o flaenoriaethau cystadleuol neu 'lobïau'.

Creodd is-grwpiau ar wahân ar gyfer pob amcan arbenigeddau cul, gan barhau'r diffyg cyd-ddealltwriaeth.

**Roedd hierarchaeth yn atal gwneud penderfyniadau ar y cyd:**

Roedd hierarchaeth ymhlyg o aelodau ‘statudol’ a ‘gwahoddedig’ yn rhoi mwy o ddylanwad i rai partneriaid dros y dewis o flaenoriaethau llesiant.

Roedd gan aelodau'r Bwrdd fwy o ddylanwad ar wneud penderfyniadau na rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu, gan arwain at wrthod awgrymiadau o amcanion trawsbynciol neu aml-ganlyniad.

**Roedd atebolrwydd rheolaethol yn cyfyngu ar amrywiaeth:**

Roedd ‘comisiynu’ cynlluniau is-grwpiau gan y Bwrdd yn atgyfnerthu pŵer rhai aelodau i roi feto ar weithredu.

Canolbwyntiodd gwerthusiadau o gynlluniau ar y gwaith o gyflawni amcanion cystadleuol yn effeithlon, yn hytrach na chynnwys nodau lluosog yn ddemocrataidd.

## Ymchwil weithredu a chydweithio

Mae ymchwil weithredu yn ymagwedd at ddysgu sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol trwy gryfhau cyfranogiad democrataidd mewn gwneud penderfyniadau a newid anghydraddoldebau.

Sefydlodd y prosiect ymchwil ddau rwydwaith aml-sefydliad dros dro a ddefnyddiodd arferion ymchwil weithredu i ddeall sut y gallai partneriaid y rhwydwaith gydweithio.

Roedd y rhwydweithiau ymchwil yn cynnwys partneriaid o Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau sir, iechyd y cyhoedd, clwstwr gofal sylfaenol, a sefydliadau'r trydydd sector.

Cynhyrchodd y rhwydweithiau ddau brif ganfyddiad a all helpu’r BGC:

**Canfyddiad 1:** Gall defnyddio arferion ymchwil weithredu greu diwylliant cydweithredol.

**Canfyddiad 2:** Creodd y partneriaid strategaeth ‘Llwybrau Gwyllt’ ymarferol a ddangosodd fanteision cydweithio.

**Mae’r briff polisi hwn yn esbonio’r canfyddiad cyntaf, sef sut y gall arferion ymchwil weithredu helpu’r BGC i ail-lunio ei ddiwylliant.** Mae'r briff polisi cysylltiedig, ‘Creu strategaeth Llwybrau Gwyllt’, yn egluro'r ail ganfyddiad. Mae'n darparu strategaeth ymarferol i arwain cydweithrediad sydd o fudd i'r ddwy ochr rhwng partneriaid sydd â diddordeb yn yr amgylchedd, iechyd a datblygu cymunedol.

## Defnyddio dulliau ymchwil weithredu yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r adran hon yn nodi'n gryno sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio ymchwil weithredu i greu diwylliant cydweithredol sy'n trawsnewid arferion cyfredol.

Gall rheolwyr partneriaethau gefnogi ei gilydd yn y broses hon trwy eu fforymau cymorth cymheiriaid ('peer support') a thrwy nodi anghenion a chyfleoedd hyfforddi.

Gall BGC hefyd ddefnyddio'r briff polisi cysylltiedig, 'Creu strategaeth Llwybrau Gwyllt', i adeiladu ar enghraifft ymarferol o weithio mewn partneriaeth gydweithredol.

**Creu diwylliant cydweithredol**

| **Gwella deialog** | **Creu heterarchaeth** | **Gwella cynhwysiant** |
|---|---|---|
| Arferion a oedd yn gwella cyd-ddealltwriaeth | Sut roedd y partneriaid yn rhannu cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau | Yr hyn a ysgogodd partneriaid i geisio safbwyntiau mwy amrywiol |

## Gwella deialog



Canolbwyntiodd partneriaid ymchwil ar wella cyd-ddealltwriaeth drwy wneud y canlynol:

- Egluro prif nodau a strategaethau ei gilydd
- Mapio anghenion ac asedau cymunedau a rhaglenni gwaith cyfredol sefydliadau
- Cymryd camau ymarferol gyda'i gilydd trwy gyfuno rhaglenni gwaith cyfredol mewn prosiectau peilot bach



Gall rheolwyr partneriaethau BGC rannu enghreifftiau â'i gilydd o ffyrdd y mae Byrddau wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn deialog, gwaith mapio a phrosiectau peilot.

**Ffocws ar gyfer trawsnewid**: dod ag arweinwyr strategol a rheolwyr rhaglen ynghyd i rannu gwybodaeth strategol ac ymarferol.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

## Creu heterarchaeth



Creodd partneriaid ymchwil ymrwymiad i gyfrifoldeb a rennir a chydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau trwy wneud y canlynol:

- Nodi sut mae gwaith pob sefydliad yn cyfyngu ar gamau gweithredu eraill ac yn cyfyngu ar wytnwch cymunedau
- Nodi ffyrdd y gall pob sefydliad gyfrannu at y lleill
- Cyfuno egwyddorion gweithredu allweddol (y seiliau ar gyfer cynllunio rhaglenni gwaith) o bob sefydliad mewn strategaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd sy'n sicrhau buddion i'r ddwy ochr



Gall rheolwyr partneriaethau BGC ddefnyddio'r briff polisi atodol 'Creu strategaeth Llwybrau Gwyllt' i archwilio sut mae arferion presennol yn cyfyngu ar weithredu ar y cyd a sut mae strategaethau cyfun yn creu budd i'r ddwy ochr.

**Ffocws ar gyfer trawsnewid**: newid cydberthnasau sefydliadau o fod yn rhai cyfryngol (trin ei gilydd fel adnoddau) i rai cilyddol (cyfrannu at ei gilydd).

## Gwella cynhwysiant



Estynnodd partneriaid ymchwil eu cynghrair i gynnwys sefydliadau a phobl amrywiol o fewn eu sefydliadau trwy wneud y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am rwydweithiau pob sefydliad partner
- Archwilio sut y gallai diwallu anghenion un sefydliad greu asedau i eraill
- Cyfuno adnoddau rhaglenni gwaith presennol er budd y ddwy ochr



Gall rheolwyr partneriaethau BGC gynnwys safbwyntiau amrywiol trwy weithio gyda rheolwyr a swyddogion ymgysylltu o bob corff partner i greu ffynonellau a ffurfiau lluosog o wybodaeth.

**Ffocws ar gyfer trawsnewid**: newid prosesau atebolrwydd fel bod rheolwyr yn atebol am gynnwys safbwyntiau amrywiol mewn penderfyniadau.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

## Ynglŷn â'r ymchwil

Ar hyn o bryd, mae'r awdur yn Gymrawd Ymchwil gyda'r prif sefydliad ymchwil llywodraeth leol, Inlogov ym Mhrifysgol Birmingham. Mae'r papur briffio hwn yn seiliedig ar ei thraethawd doethurol, y bu'n gwneud darn o waith ymchwil weithredu estynedig ar ei gyfer rhwng 2016 a 2019 gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Cyfrannodd yr olaf at gostau'r ymchwil. Cafodd yr ymchwil ei hadolygu'n drylwyr gan gymheiriaid fel sail i'w Doethuriaeth mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r ymchwil lawn ar gael yn:

Woodcock, E. M. (2022) *Cross-sector collaboration for Wales' national well-being: Transformative action in communities of practice*. Bangor. Ar gael yn: https://research.bangor.ac.uk/portal/en/theses/crosssector-collaboration-for-wales-national-wellbeing(a935f539-869b-4be5-a41b-38f91ee738d5).html.